YR YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1900. [RHIF 149.

PREGETH GAN Y DIWEDDAR JOHN JAMES.

(*Parhad o'r Rhifyn diweddaf.*)

II. HELAETHRWYDD EI GARIAD.

MAE dywedyd mai cariad yw Duw yr un peth a dywedyd ei fod mor helaeth fel nad oes terfyn iddo. Ni ellir ffurfio ymadrodd i osod allan helaethrwydd cariad Duw, gwell na dywedyd, "Duw, cariad yw." Y mae Ei gariad mor helaeth, cyfled, cyhyd, cyfuwch, cyn ddyfned ag yw Ef Ei Hun. Nid oes un mesur a fesura gariad Duw, ond yr un a fesura yr Anfeidrol Ei Hunan.

Gall dyn ddychymygu miliynau, a miliynau o filiynau o fydoedd, a heuliau, a lleuadau, a'u lluosogi, nes y byddo wedi methu, ac wedi llwyr ymgolli yn ei ddychymyg, eto, y mae cariad Duw yn cyrhaedd tuhwnt i'r oll, yr hyn a brawf ei fod yn mhob lle. Lle bynag mae Duw yn bod, "Duw, cariad yw." Yr hyn yw Duw mewn un lle, yr un peth yw yn mhob lle. Y mae yn gariad yn mhob man, neu nid yw yn gariad yn un man. Nid yw gwahaniaeth lle yn gwneuthur un gwahaniaeth na chyfnewidiad ynddo Ef, "Yn yr Hwn nid oes gyfnewidiad, na chysgod tröedigaeth."

Yr un yw Duw, a chariad yw yn mhob man, yn yr holl fydoedd, beth bynag eu henwau, ai nefoedd, ai daear, ai uffern Y mae Ef yn a thrwy, ac oddiamgylch, i bob creadur, a chariad yw yn llanw pob lle, ac yn treiddo trwy bob creadur a phob peth arall.

Nid yw'r geiriau "pawb," "pob dyn," "yr holl fyd," &c., ond gweinion a llesg pan eu defnyddir er ceisio gosod allan neu ddesgrifio helaethrwydd cariad Duw. Y mae'r geiriau hyn oll weithiau yn cael eu harfer mewn ystyr gyfyng, ond dyweder mai cariad yw Ef, dengys hyny fod Ei gariad tuhwnt i bob posiblrwydd i'w fesur. Ni ellir

dyweyd fod un creadur yn bodoli nad yw Duw yn ei garu heb fesur ei anfesuroldeb. Nid yw dyweyd dyma neu dacw le nad yw cariad Duw yn ei gyrhaedd, ond yr un peth a dyweyd nad yw Duw Ei Hunan yn y lle hwnw; ac os nad yw Duw mewn rhyw fan, cystal dyweyd nad yw yn un man, neu nad oes Duw o gwbl.

Ond, meddai rhywun, nid cariad i gyd yw Duw, eithr fod iddo briodoliaethau ereill. Os yw yn gariad, y mae yn ogystal yn gyfiawn ac yn sanctaidd; ac y mae ganddo gyfraith; ac y mae yn Dduw'r gwirionedd. Nid yw ymresymu yn y modd hyn ddim amgen na cheisio mesur Ei gariad a'i briodoliaethau Ei Hunan, sef trwy osod Ei gyfiawnder, Ei wirionedd, Ei sancteiddrwydd, a'i gyfraith, yn rhwystr ar ffordd Ei gariad. Nid yw dywedyd fod un o briodoliaethau Duw yn groes i un arall ddim gwell na dywedyd nad oes ganddo un briodoledd anfeidrol, oblegid fod un arall o'i eiddo yn ei meidroli; ac nid yw amheu anfeidroldeb un o'i briodoleddau ddim gwell nag amheu Ei fodoldeb. Os yw cyfiawnder a chariad yn groes i'w gilydd, ni all un ohonynt weithredu, oblegid fod yr un gallu a doethineb i'r naill ag sydd i'r llall. Pe buasai cariad Duw, er engraifft, yn gofyn neu yn ewyllysio dedwyddwch pawb, a chyfiawnder anfeidrol yn gofyn neu yn ewyllysio annedwyddwch pawb, ni buasent na dedwydd nac annedwydd; hyny yw, ni buasai i ddynion fodolaeth o gwbl. Nid ydynt gan hyny yn groes i'w gilydd.

Un yw Duw, a'i enw yn Un, ac y mae Ei holl briodoleddau yn un. Cariad yw Ef yn Ei gyfiawnder, ac yn Ei sancteiddrwydd, ac yn Ei wirionedd, ac yn Ei gyfraith. Cariad oll yn oll ydyw Ef, ie, cariad anfeidrol. Ond o bosibl y dywedir fod yr Ysgrythyr yn dyweyd fod llid yn Nuw, a'i fod yn ddigllon beunydd wrth yr annuwiol; ac onid yw llid a digofaint yn groes i gariad?

Pe byddai llid a digofaint i barhau yn ddiddiwedd at bawb, ni byddai cariad at neb; nid cariad fyddai Duw o gwbl. Eto pe byddent yn ddiddiwedd at rai byddai hyny i feidroli cariad, hyny yw, nid cariad fyddai'r Duw Anfeidrol. Ond ni phery Ei lid byth, ac nid byth y ceidw Efe ddigofaint. Ond y mae Duw yn anfeidrol yn Ei holl briodoliaethau, ac felly y mae yn amlwg nad yw Ei lid yn anfeidrol, onite, byddai i bara byth. Ni ddywedir na phery Ei gyfiawnder, a'i gariad, a'i gyfraith, a'i wirionedd byth. Paham gan hyny y priodolir i Dduw lid o gwbl? Y paham yw, Ei fod mewn cariad yn cosbi'r annuwiol fel y mae tad yn cosbi ei blant anufudd. Yn yr ystyr hwn y mae llid a digofaint yr un a chariad; ac yn yr un ystyr gellir dywedyd, Digiwch, ac na phechwch, ac na fachluded yr haul ar eich digofaint chwi Yn yr ystyr hwn nid yw digio yn bechod mewn Cristion; ond y mae digio a phara yn ddigllon yn mhob ystyr arall yn bechod ynddo. A yw yn bechod mewn dyn i fod yn ddigllon yn yr ystyr y mae Duw yn ddigllon, pan orchymynir i ni fod fel Efe, ac yn ddilynwyr iddo? Pan ddywedir, gan hyny, fod Duw yn ddigllon wrth yr annuwiol, dysgir ni Ei fod mewn cariad yn ei gosbi mewn ffordd o gerydd, fel mae tad yn cosbi ei blant drwg, ac y bydd yn sicr o gosbi hyd oni edifarheir, fel y mae ambell ddyn llidiog yn arferol o wneuthur.

Nid yn unig dywedir yn yr Ysgrythyrau y perthyn i Dduw lid a digofaint, fel y perthyn i ddyn, ond dywedir fod ganddo hefyd lygaid, wyneb, cefn, breichiau, &c., yn arwyddo Ei bresenoldeb. Ei ffafr, Ei nerth, Ei wybodaeth, &c. ; ond pwy a ddywed fod ganddo lygaid, &c., yn ystyr lythyrenol y geiriau ! a phwy a ddywed fod yn Nuw lid a digofaint yn yr ystyr lythyrenol ? pan y mae yn berffaith wynfydedig oherwydd mai cariad yw. Ie, cariad yw'r llid yn cosbi er lles : ac yn yr ystyr hwn y dywedir fod Duw yn llidiog ; cariad yw yn Ei lid ac yn Ei holl briodoliaethau ; nid oes mesur ar Ei gariad Ef heb fesur Ei hanfod neu wadu Ei anfeidroldeb.

Nid gwiw i ddyn, â'i linyn mesur ei hun, geisio mesur ei Greawdwr Mawr Anfeidrol. Nid gwiw iddo, â'i feddwl cul ei hunan, geisio gosod terfyn ar anfeidrol gariad Duw. Y mae culni rhagfarn ddynol yn groes i'r meddwl o gariad anfesurol Duw. Nid yw'r dyn llidus yn foddlon fod Duw yn caru y rhai ni char ef. Ystyried y cul a'r angharliadus ei feddwl, os nad yw Duw yn anfesurol Ei gariad, pa hawl sydd ganddo i feddwl ei fod yn ei garu ef ? Ystyria, O ddyn ! beth sydd genyt i enill cariad Duw ? Paham y car Ef di os nad yw yn caru pawb ?

Ond os yw Duw yn caru pawb, paham y dywed Crist, "Nid dros y byd yr wyf yn gweddio, ond dros y rhai a roddaist i Mi allan o'r byd" ? Paham na buasai Crist yn gweddio dros y byd, os oedd Duw yn caru'r byd ? Pe buasai ei Dad yn ewyllysio dedwyddwch y byd, buasai Crist yn ewyllysio hyny hefyd, oblegid yr un oedd Ei ewyllys Ef ag ewyllys y Tad. Yr oedd Crist yn ewyllysio dedwyddwch y byd, ac yr oedd yn gweddio am hyny yn y weddi yn yr hon y dywed, "Nid dros y byd yr wyf yn gweddio." Yn nechreu Ei weddi y mae Ef yn gweddio drosto Ei Hun, yna dros Ei ddysgyblion, ar ol hyny dros y rhai a gredent ynddo Ef trwyddynt hwy, fel y credai y byd mai Duw a'i hanfonodd Ef. Yr oedd credu hyn a bywyd tragywyddol dedwydd yn arwyddo yr un peth.

Gwêl pob un a ddarlleno weddi ein Harglwydd Iesu Grist yn Ioan xvii., nad oes neb yn cael eu cau allan o gylch ei ewyllys da Ef, ond ei fod yn gweddio am gael ei ogoneddu, a'i ddysgyblion gael eu sancteiddio yn y Gwirionedd, a bod yn un â'u gilydd yn eu tystiolaeth, fel y byddai i'r byd anghrediniol ddyfod i gredu, ufuddhau, a bod yn ddedwydd.

Eto, paham y mae Paul yn dywedyd fod rhai wedi cael eu hethol a'u harfaethu, os yw pawb yn wrthrychau cariad Duw ? Y mae yn dywedyd yn Rhuf. viii. 30, "Y rhai a ragluniodd Efe, y rhai hyny hefyd a alwodd Efe ; a'r rhai a alwodd Efe, y rhai hyny hefyd a gyfiawnhaodd Efe ; y rhai a gyfiawnhaodd Efe, y rhai hyny hefyd a ogoneddodd Efe." Adnod 33 : "Pwy a rydd ddim yn erbyn etholedigion Duw ?"

Y mae'r geiriau hyn drachefn yn dangos helaethrwydd cariad Duw, ac ychydig, a dim hefyd, oedd Paul yn feddwl wrth eu hysgrifenu, fel yr wyf yn ewbl gredu, y byddent byth yn cael eu hystyried fel yn profi fod cariad Duw yn cael ei gyfyngu. Er mwyn dangos fod cariad

Duw yn cofleidio holl ddynolryw—Iuddewon a Chenedloedd, yr ysgrifenodd Paul yr Epistol hwn.

Yr oedd yr Iuddewon am gyfyngu cariad Duw i'w cenedl eu hunain yn unig, gan haeru na wnai credu ac ufuddhau ddim lles i'r Cenedloedd, heb iddynt yn gyntaf trwy enwaediad gael eu corffoli yn y genedl Iuddewig. Ond nid oedd yr Iuddewon, na neb pryd hyny, yn amheu nad oedd Duw yn caru pawb o'r Cenedloedd os oedd yn caru neb ohonynt; ac â llawer o resymau y mae'r Apostol yn profi hyn:—Megys fod pawb wedi pechu, ac yn sefyll mewn angen maddeuant; fod Duw, gan ragweled, wedi rhagordeinio pregethu'r Efengyl i'r Cenedloedd, a'u bod hwy, pan y maent yn credu, yn dilyn Abraham, ac yn dyfod yn blant iddo, ac yn cael eu derbyn ar eu ffydd fel Abraham ar ei ffydd yntau; fod Duw wedi galw'r Cenedloedd, wedi eu cyfiawnhau, a'u sancteiddio, a'u gogoneddu (gwêl Actau xv. 6-20.)

Mae'r Apostol, fel yr ymddengys i mi, wrth resymu fel hyn yn amcanu profi fod Duw yn ewyllysio dedwyddwch y Cenedloedd; ac os felly, gan nad oedd neb y pryd hwnw yn amheu ei ewyllys da i'r Iuddewon, yr oedd Duw yn ewyllysio'n dda i bawb o ddynolryw, sef Iuddewon a Chenedloedd. Gyda golwg ar yr Iuddewon anghredinïol, y mae Paul yn eu galw yn "lestri digofaint, wedi eu cymhwyso i golledigaeth," Rhuf. ix. 22. "A hwythau, onid arosant yn anghredinïaeth, a impir i mewn," Rhuf. xi. 23. "Canys Duw a'u cauodd hwynt oll" (Iuddewon a Chenedloedd), "mewn anufudd-dod" (anghredinïaeth), "fel y trugarhäi wrth bawb." "O! ddyfnder golud doethineb a gwybodaeth Duw!" 32, 33. Y mae'r Apostol yn ystyried fod Duw trwy'r cyfan oll yn dwyn oddiamgylch ddaioni, nid rhai, ond pawb. Yr oedd yn ddiau yn caru'r Iuddewon, yr oedd yn caru'r Cenedloedd hefyd. Ië, mewn gwirionedd, mae Duw yn caru pawb—holl ddynolryw.

Yr un peth mae'r Apostol yn ei ddysgu yn yr Epistol at yr Ephesiaid, i. 4, 5, lle mae yn dywedyd eu bod wedi cael eu hethol cyn seiliad y byd i fod yn sanctaidd, &c., yn ol boddlonrwydd Ei ewyllys. Paham yr etholodd Duw hwynt? I egluro iddynt ddirgelwch Ei ewyllys, fel y gallai grynhoi yn nghyd yn Nghrist yr holl bethau sydd yn y nefoedd (Iuddewon), ac ar y ddaear (Cenedloedd), 9, 10. Etholodd Duw hwynt er lles pawb, er dangos ei fod yn caru pawb, ac yn ewyllysio eu dedwyddwch. Pwy all ddywedyd nad oeddent yn cyflawni'r gwaith yr etholwyd hwynt iddo? A fydd i ni geisio cyfyngu'r genadwri a osododd Duw yn ngenau Ei apostolion etholedig? Y mae yr holl Ysgrythyr yn cyd-dystiolaethu mai cariad yw Duw. Hyd yn nod y rhanau hyny a ddygir yn mlaen i gyfyngu Ei gariad, a'u deall yn iawn, a ddysgant mai cariad heb fesur yw cariad Duw. Nid oes rhanau o'r Ysgrythyr yn cael eu hystyried fel yn profi cyfyngiad cariad Duw, neu ei neillduolrwydd i rai dynion, yn amlycach na'r geiriau a ddarllenais; ond y maent yn ymddangos i mi yn dysgu ac yn profi i'r gwrthwyneb. Barned pawb drostynt eu hunain.

Ystyriwn yn ddifrifol beth sydd gynwysedig mewn meddwl a dyweyd mai cariad yw Duw, ond mai nid cariad i *gyd* yw Ef. Y mae pob *ond* o dalfyriad ar gariad Duw yn hollol ddisail, ac yn sarhad i'r

eithaf. Cariad anfeidrol yw Duw, heb yr un *ond* yn perthyn iddo. O, na allwn ddesgrifio cariad Duw nes cael ohonom ein henill i'w garu a'i ddilyn hyd eithaf ein gallu! O! fychanrwydd mesur diddym dyn, yn ceisio cyfyngu cariad a leinw'r holl eangderau, a dreiddia trwy'r holl fydoedd, ac a'u hamgylchyna—cyfyngu'r cariad hwn i ryw nifer fychan o ddynion a drigant ar y ddaear!

O, ryfyg anghymharol! dyn gwael, abwydyn y llwch, yn beiddio dywedyd y geill ddychymygu creaduriaid tufaes i gariad Duw, a lle nad yw Ei gariad na'i drugaredd fyth yn aros ynddo! Ië, meddai rhywun, ni ddywedid dim o hyny oni bai fod Ei greaduriaid wedi troseddu yn Ei erbyn. Ond, meddaf, ni ellir mesur Ei gariad â throseddau dynion. Y mae Duw yn cosbi'r pechadur, ond cariad sydd yn ei gosbi. Fe wna pechod iddo gosbi, ond ni all osod terfyn ar Ei gariad. Cariad sydd yn rhoddi gorchymynion, bygythion, ac addewidion. Cariad Duw sydd yn oll a thrwy oll.

(*I'w barhau.*)

"Y BOREU."

NAWR, pan mae du gysgodau'r hwyr yn cefnu
O flaen yr haul a'i faner goch o dân;
A dychrynfeydd y gwyll yn clau ddiflanu,
O Dduw, 'n ddiolchgar plygwn o dy flaen.

Dadselio'r wyt â'th air ffynonau bywyd,
Tra bryn a dôl yn gorwedd dan gyhudd;
A gyru myg belydrau dros yr hollfyd,
A hwyr a boreu i gyflawni'r dydd.

O dŵr y nef, rho'th wenau i'n sirioli,
A'th wawl a'th wir i'n harwain drwy y glyn;
A'th ras fel cynt parha i'n calonogi,
A dwg ni'n ddyogel tua Seion fryn.

A phan y deffry boreu'r dydd diddarfod,
A chilio o flaen ei gainder ddrygau lu;
Rhoi ffarwel gaffom i'r holl fyd a'i drallod,
A threulio dydd trag'wyddol gyda Thi.

Adsain. T. C. U.

NI thrig clod lle bo balchder.

Y TEIMLAD CREFYDDOL (*THE RELIGIOUS SENTIMENT*).

GAN MR. T. J. THOMAS, B.Sc.

(*Parhad o'r Rhifyn diweddaf.*)

YN y lenyddiaeth fawr ac aruchel hono a gynwysir yn ein Beibl Sanctaidd, mae yr Iuddew wedi arddangos y teimlad hwn yn anad un genedl arall ar wyneb y ddaear.

Pwy fedr ddarllen Salmau Dafydd heb deimlo ei galon yn cynesu; heb deimlo ei fynwes yn cael ei thrydanu gan y mawl a genir i Greawdwr Sanctaidd y bydoedd! Dylai y llyfr hwn ar ben ei hunan roddi pen bythol ar bob Atheist yn y byd.

Ai nid drwy nerth *teimlad* y mae Iesu wedi lefeinio cymdeithas am ugain canrif? B'le mae dylanwad yr athronwyr Groegaidd, megys Plato ac Aristotle? a ydynt hwy wedi cael rhyw effaith ar swm mawr pobl y byd? Na; ychydig ohonom sydd yn *byw* fawr gwaeth na nemawr gwell o'u plegid hwy. "Coethwch eich meddyliau" oedd pregeth yr athronwyr Groeg; ond "Gwyn fyd y rhai pur o galon" oedd pregeth Iesu o Nazareth.

Athronyddu ar gymdeithas oedd gwaith Plato; ond yr "Iesu a wylodd" dros drueni'r byd; ac y mae Ei ddagrau hyd heddyw yn aros ar y bryniau, ac yn eu heneinio megys defnynau gwlith y boreu.

Teimlo dros y byd wnaeth yr Iesu; a dyna *secret* fawr Ei weinidogaeth Ef; dyma wers ac esiampl i lawer o weinidogion ein dyddiau ni. Cryfder, nerth gewynau, dyna fri'r anifail; ond y mae cryfder meddwl wedi gosod dyn yn arglwydd ar y greadigaeth—nid cryfder deall, cofiwch, ond cryfder moesol hefyd—nerth moesol yw y nerth mwyaf a wyddom am dano—nerth teimladau goreu'r fynwes ddynol, os mynwch. "An honest man is the noblest work of God," meddai Pope; ac nis gall un dyn fod yn berffaith *onest* iddo'i hun, ac i ereill, ac i'w Greawdydd, heb fod yn ddyn da, ac yn ddyn crefyddol.

Pwy ddiwrnod bu farw un o ddynion mawrion y ganrif hon, os nad, yn wir, efe oedd y mwyaf ar amryw ystyron. Bu ef fyw a marw dros y genadaeth fawr hono—"Byddwch fyw yn brydferth, byddwch fyw yn dda"—ac onid dyna genadaeth Iesu Ei Hunan? Ac fel yr Iesu yn tynu gwers o lili'r maes, yr hon nad yw yn gwau nac yn nyddu, eto ni wisgwyd Solomon yn ei holl ogoniant yn gyffelyb iddi hi.

Felly am John Ruskin—oblegid gwyddoch yn eithaf da mai ato ef yr ydwyf yn cyfeirio—bu fyw i ddysgu'r byd i fyw yn well, i wrteithio'r teimladau goreu at ein gilydd, ac i deimlo fod pob rhan o'r ddaear yn fan wedi ei chysegru a'i harddu gan fysedd Duw Ei Hunan. Fel Shakespeare, gwelai "Bregethau yn y meini, a llyfrau yn llif y nentydd."

Y mae hanes cenedloedd yn dangos yn eglur bwysigrwydd y *teimlad crefyddol.*

Pryd y cyrhaeddodd Prydain Fawr ei mawredd yn mysg y cenedloedd? onid yn amser y gwr mawr hwnw na dderbyniai wyneb dyn, ond a ofnai ac a barchai Dduw yn wastadol—y gwr hwnw elai drwy'r wlad â'r cledd yn un llaw a'r Beibl yn y llall, nes gyru cryndod i orseddau beilch Cyfandir Ewrop?

Beth yw y rheswm fod Ffrainc heddyw yn graddol ddihoeni a gwanhau fel cenedl? Y mae unrhyw un sydd yn gyfarwydd âg *ideal* y Ffrancwr o fywyd yn gweled yr ateb yn ddigon eglur; ei ddelfryd ef ydyw, *Enjoy life*—ac y mae'r *ideal* hwn yn ei arwain yn raddol i ddamnedigaeth *sicr.*

"Canys torir ymaith y drwg-ddynion; ond y rhai a ddysgwyliant wrth yr Arglwydd, hwynt-hwy a etifeddant y ddaear."

Lle mae'r *teimlod crefyddol*—y teimlad o gariad at ddyn ac o barch at Dduw—lle mae hwn yn eisieu, buan y mae bywyd dyn yn dirywio. Ffordd pleser a gwagedd a arweinia i ffos pechod, llygredigaeth, afiechyd, a marwolaeth annaturiol.

Ac fel y mae hyn yn dal am ddyn, y mae yr un mor wirioneddol yn ei gymhwysiad at genedloedd. Anghofiodd Rhufain ei duwiau, aeth ar ol pleser, ac y mae Dinas Dragywyddol y Lladinwr balch erbyn heddyw fel gwr fu gyfoethog, ond yn awr sydd mewn bratiau budron; ac y mae ei blant a'i wlad hyd heddyw mewn tlodi ac anwybodaeth ddygn yn breuddwydio yn ddiog a charpiog ar lànau y Tiber oedd mor enwog gynt.

Beth am ddilynwyr Duw Israel gynt—cenedl ddoeth a dewisedig y Goruchaf? Dyeithriaid a phererinion ydynt ar hyd wyneb y ddaear, yn destyn gwawd a dirmyg, ac yn dyoddef dan erledigaeth greulonaf yr holl genedloedd. Yn ddiamheu, pe bai'r Iuddewon heb golli eu *teimlad crefyddol*, eu parch at Dduw eu tadau, buasent heddyw yn mysg blaenaf o bobl y ddaear. Ond pa fodd y gallwn dd'od i feddiant o'r *teimlad crefyddol* hwn?

Y mae pob dyn gwir grefyddol yr ydym yn gwybod am dano yn credu yn *naioni hanfodol* pob peth—"A believer in the ultimate good of things." Credwn yn *naioni* ein gilydd, gwelwn ddaioni *natur* o'n hamgylch, ac y mae yn canlyn fod yn rhaid i ni gredu yn *naioni Duw.*

Fel y mae gwahanol wledydd yn tyfu blodau gwahanol i'w gilydd, felly am grefydd; y mae crefyddau gwahanol wledydd yn gwahaniaethu; ond fel y *blodau*, y maent oll yn bodoli i'r un amcan mawr—harddu, prydferthu, a phuro'r byd, a dwyn gwyneb y ddaear yn debycach i wyneb y nefoedd.

Y mae gwir addysg yn dda, ond nid yw addysg yn fraint sydd o fewn gafael pawb; er hyny, y mae un peth a fedr pawb wneyd, sef ufuddhau i orchymyn yr Iesu—CERWCH EICH GILYDD.

Cofiwn bob amser ein bod yn mhresenoldeb Un sydd anfeidrol fwy na ni, Un anfeidrol ddoethach, ac anfeidrol bur—y mae Duw yn fyw! ac y mae yn byw gyda ni. Nid ar orsedd wen mewn rhyw

nefoedd hardd fry tuhwnt i'r aneirif ser a'r heuliau y mae Duw; ond *y mae gyda ni.*

"Personol Dad, presenol Di i mi 'mhob man."

I'r dyn crefyddol, y mae Duw yn bresenol bob amser. Y mae y pur o galon bob amser yn gweled Duw; y ffol yn unig a ddywed yn ei galon, Nid oes Dduw!

Gwelwn Ef yn y glaswelltyn; yn y blodeuyn: yn y graig: clywn Ef yn y nant a'r dòn, ac yn rhu y storm ardderchog: yn hanesiaeth aruchel y Beibl; yn hanes cenedloedd y ddaear; yn fwy na dim, gwelwn Dduw yn ein calonau ein hunain, ac yn mynwesau pob dyn a dynes o'n cylch. *Calon dyn da* yw'r drych sydd yn dangos Duw oreu. Ac o ofni Duw a pharchu dyn, deuwn i feddiant o'r teimlad puraf ac aruchelaf sydd yn bosibl i'r fynwes ddynol ei gyrhaedd—y *teimlad crefyddol.*

FY MHREGETH GYNTAF.

NID wyf yn cofio yr amser nad oeddwn i â'm bryd ar fod yn bregethwr; ond yr wyf yn cofio llawer adeg mewn blynyddoedd ddiweddarach pan y teimlwn yn drist iawn oherwydd syrthio yn fyr o'r pregethwr y carwn fod.

Yr wyf yn cofio yn reit dda am adeg traddodiad fy mhregeth gyntaf, ac yr wyf yn adrodd yr helynt yn bresenol yn unig yn y gobaith y gall yr hanes fod o ryw ddifyrwch i'r darllenydd, ac o galondid i ryw ddyn ieuanc a ddichon fod â'i wyneb yn yr un cyfeiriad. Yr oeddwn wedi cymeryd rhan yn y gwasanaeth yn fy mam-eglwys gartref lawer gwaith er yn bur ieuanc, ond nid oeddwn wedi fy nghymell i bregethu yno erioed gan neb—am ba reswm, nis gwn. O bosibl fod y gynulleidfa yn teimlo y dylesid gadael hyny o beth at ddewisiad y gweinidog; a'r gweinidog yntau, o bosibl, yn teimlo fod yna ryw anmhriodoldeb iddo ef wthio gwasanaeth ei fab yn ormodol i'r ffrynt. Gwyddai fod Cymraeg ei fab yn ddiffygiol, a'i feddyliau—ofnai, yn debyg iawn, eu bod yn amrwd ac anaddfed. Dyna yw meddyliau dyn ieuanc yn debyg o fod.

Yr oeddwn wedi bod ddwy flynedd yn y Coleg cyn i neb fy nghlywed yn pregethu; a phan ddaeth y cais ataf o'r diwedd, nid oedd genyf yr un bregeth yn barod. Heddyw, ymddengys hyn oll yn rhyfedd iawn i mi. Sut y gallaswn, a minau gymaint fy awydd am fod yn bregethwr, adael y blynyddoedd i lithro heibio heb ymosod ar y gwaith o gyfansoddi pregeth. Yr wyf yn cofio am fy mrawd ieuengaf, sef John, yr hwn a fu farw cyn ei fod yn ddeg oed, ei fod yn ei ffordd fach ei hun yn hoff iawn o gynal cwrdd, ac o bregethu, a'i gyfoedion bychain yn ymuno yn y canu.

Pan ddaeth y cais ataf o'r diwedd, oddiwrth y Parch. Thomas Thomas, Y.H., y daeth, boneddwr sydd eto yn fyw yn ein plith, a byw yn hir fyddo. Y mae'n amlwg nad oedd angen fy ngwasanaeth yn neillduol yr adeg hono; ond yr oedd angen ar y brawd, fel arfer, i wneuthur cymwynas â mi, a diolch iddo. Gallesid meddwl y buasai yn ateb digonol i'r cais, yr ateb nacaol nad oedd genyf fi'r un bregeth yn fy helw. Ond na, nid oedd dim gwrthod i fod. Ni thyciai dim a ddywedwn yn y cyfeiriad hwnw. Yr oedd yn *rhaid* i mi bregethu, a dyna'r cwbl ar ben. Nid oeddwn yn deall sut y gallesid gwneuthur y *rhaid* yn beth posibl dan yr amgylchiadau. Ond nid yw Mr. Thomas yn ddim os nad yw yn bellweledydd. Fe wêl yn mhell, ac fe wêl drwy anhawsderau fyddant yn wàl ddwy droedfedd o flaen gweledigaeth yr amlafrif. Dim pregeth, nac amser i gyfansoddi un, oedd y mynydd o anhawsder a welwn i ar fy ffordd. Dywed y ddiareb mai angen yw mam dyfais; eithr ni fedrwn i weled yr angen na theimlo'r un ffordd i ddyfeisio. Ond ni wrendy Rhaid ar esgusodion, gan nad oes gan Raid glustiau. O gyfeiriad Mr. Thomas y gwasgai y Rhaid y tro hwn, ac yr oedd ei ewyllys ef yn gryfach, a thebyg ei fod yn gweled drws agored o'r dechreu. Cawswn fenthyg pregeth ganddo ef. Yr oedd y brofedigaeth yn gref, a rhyw haner chwant yn fy mynwes inau i gychwyn ar yr hyn a edrychwn arno fel gwaith fy mywyd yn y byd. Nid oedd y cynllun yn hollol gymeradwy genyf, ond bu i mi syrthio!

Cefais fenthyg y bregeth. Yr oedd wedi ei hysgrifenu yn ardderchog, mewn llaw eglur, amlwg, fel y medr Mr. Thomas ysgrifenu hyd heddyw, a gellid ei darllen ar redeg. Nid oedd trafferth i fod yn y cyfeiriad hwnw. Yr oedd y pwnc hefyd yn ateb fy chwaeth i drwch y blewyn; nid oedd yn rhy uchel, nid oedd yn rhy isel; ac fel cyfansoddiad yr oedd yn syml ac yn llithrig, pob brawddeg megys wedi ei threfnu i redeg yn esmwyth. Darllenais hi yn fanwl ac yn ofalus; ac wrth y bwrdd, a neb yn gwrando, gallaswn wneuthur peth cyfiawnder â hi. Ond fe ddaeth y boreu, boreu y Sul bythgofiadwy, a hyny dranoeth, os wyf yn cofio yn iawn. Yr oeddwn i gael fy hebrwng gan Mr. Thomas ei hun. Cychwynwyd o Ddyffryn Cletwr, fel y gellid bod yn brydlawn yn y capel—capel Rhydygwin. Beth oedd rhif y milldiroedd o'n blaen, nis gwn; ond gwyddai fy arweinydd yn gywir faint o amser oedd yn angenrheidiol i gwmpasu'r oll ohonynt. Yr wyf wedi cadw cornel gynes yn fy mynwes i'r capel bach byth oddiar hyny. Ychydig heddyw yn fyw sydd yn cofio yr adeg—adeg mor bwysig i mi, ac mor llawn o adgofion byw.

Esgynwyd i'r pwlpud. O mor wan oedd y garau! Curai y galon hefyd yn gyflym anarferol; a'r holl gorff—yr oedd yn crynu! Detholwyd yr emynau, a detholwyd y gwersi o'r Hen Destament a'r Newydd. Gwnaethpwyd hyn gyda chryn lawer o arafwch. Nid oedd dim brys cychwyn â'r bregeth—wel, yr oedd hono ar bapyr. Pregeth fenthyg oedd; nid oedd yn bosibl anghofio, a pharai hyny ofn a phryder a pheth cywilydd. Aed uwchben y traed, a theimlai y rhai hyny hefyd fel pe byddent yn draed benthyg. Yr oedd yn y capel gynulliad da

iawn. Buasai yn well genyf y pryd hwnw iddi fod yn llai ei rhif. Fel rheol, cynulliad lluosog sydd oreu genyf heddyw. Heb law fy nghyfaill Mr. Thomas, yr oedd yn bresenol ddau bregethwr arall, Mr. Davies, Coedparc, a Mr. John Jeremy, dau hen gyfaill anwyl, o barchus goffadwriaeth, a wnaethant lawer o waith da yn eu dydd: ond buasai'n well genyf iddynt fod yn Jericho, neu rywle arall yn ddigon pell, ar yr adeg hono, na'u bod yn Rhydygwin yn gwrando pregeth fenthyg. Teimlwn fod yna radd o *impudence* ynwyf dan yr amgylchiadau, yn ceisio cyhoeddi Efengyl ail-law yn nghlywedigaeth tri brawd mor brofiadol. Ond i beidio ymhelaethu yn fwy na mwy, fe aed drwy y gwasanaeth rhagarweiniol rywsut; a phan ddaethpwyd at y bregeth —megys gyda Caradog a'i grwth—yr oedd cryn dipyn o waith gyda'r tànau cyn eu cael i drefn, ac nid rhyfedd hyny, pan gofir mai crwth benthyg oedd. Wedi unwaith cael cychwyniad, nid anhebyg, feddyliaf, y bu i mi i'r hyn y bu gyda'r brawd anwyl Lewis Davies, Cwmdyllest, pan yn traddodi ei bregeth gyntaf yntau yn Nghiliau rai blynyddoedd yn ddiweddarach. Meddwn i wrtho boreu dranoeth ar glwyd Nantyrymenyn, yn ymyl efail Tomos y gôf: "Wel, Lewis, fachgen, sut yr aeth y bregeth ddoe?" "Fel bwleten o ganan, 'achen," oedd ateb digrif Lewis: ac fel bwleten o ganan yr aeth fy mhregeth inau, dipyn bach ar antur, ond ni chlywais i neb gael ei glwyfo.

Chwefror 28*ain*, 1898. R. J. J.

LLINELLAU

I Briodas Mr. T. H. R. Hughes, o'r Neuadd Fawr, Llanbedr, â Mrs. Dennis, o'r Mynachdy, ger Aberaeron.

PRIODAS dda Paradwys ddawn—i Hughes
Y Neuadd yn gyflawn;
Bob amser mewn llonder llawn
I'w haeledd a fo hylawn.

Dennis fo'n ddilys ddala—i'm goeliaw'n
Amgeledd gymhwysa';
Yr ethawl wraig brydfertha'
O riniau glwys, un ddwys dda.

Iddi 'nawr i fyw eiddunwn—hir oes,
'Nghyda'r Hughes, cydwaeddwn;
Tra môr a thud fe'u clodforwn,
A'u mwyniant derch gwnawn o, mi wn.

Caeglas. HEFIN HARRIS.

TEMLAU AC ADDOLIAD.

ADDOLIAD yw talu gwarogaeth, gosod ein hewyllys yn ddarostyngedig i Fôd sydd yn uwch na ni ein hunain. Mae fod dyn yn addoli Bôd Goruchaf yn gyneddf sydd yn gynhenid i'w natur, pa un ai cariad, a'i diolchgarwch, neu ofn fyddo ffynonell yr addoliad hwnw. Hyd yn nod pan nad yw'r addoliad yn ddim ond rhywbeth deallol, heb ganddo ddim i'w wneyd â dyfnder teimlad, fe deimla dyn rhyw fesur o foddhad am ei fod wedi cyflawni i'w Greawdwr ddyledswydd nas gall ei gosod o'r neilldu. Mae yr annuw—y dyn na adnebydd Dduw—yn addef ei anallu i benderfynu cwestiwn ei fodolaeth ei hun. Cwyd y diffyg hwn o'i anghrediniaeth. Fy amcan i fydd rhoi ger bron darllenwyr yr YMOFYNYDD syniadau dyn am Fôd Goruchaf o ddechreu ei hanes yn y byd hyd yn awr, a'r modd y mae wedi ceisio rhoddi mynegiant i'r syniadau hyny.

Mae y crybwylliad cyntaf a gawn ni am ddyn yn talu gwarogaeth i'w Wneuthurwr i'w weled yn llyfr Genesis, lle mae Abel a Chain yn dwyn ffrwythau'r ddaear a'r cyntafanedig o'r anifeiliaid yn offrymau i Dduw. Ond gallwn yn ddyogel ddyweyd i Adda mewn cyfnod boreuach fyth addoli Duw mewn diolchgarwch a pharch pan yr edrychai ar ardderchogrwydd gweithredoedd yr Hollalluog. Yma y ceir engraifft o addoliad gwirfoddol—dyn o ddyfnder ei enaid yn addoli Duw mewn edmygedd o'i ddaioni. Yn mhellach yn mlaen yn yr un llyfr, ni a gawn hanes am Noah yn adeiladu allor, ac yn cyflwyno poeth-offrymau i Dduw. Yna y daw'r diluw a thô newydd o ddynion: "A'r holl ddaear oedd o un iaith ac o un ymadrodd." Pan gymysgwyd yr ieithoedd wrth adeiladu tŵr Babel, darfu i holl bobloedd y ddaear gael eu gwasgaru. Ymdyrai y rhai a siaradent yr un iaith at eu gilydd, ac wrth eu bod yn ei theimlo yn anghyfleus i dario yn mhlith pobloedd a lefarent iaith ddyeithr iddynt, symudasant i wledydd pell. Yno yr anghofiasant yn fuan arferion a defodau y wlad a adawsant ar ol, am y talent fwy o sylw i wneyd eu cartref mewn gwlad newydd, a darparu ar gyfer eu hangenion fel cenedl. Am nad oedd addysg a doethineb yn cael eu trosglwyddo i lawr o dad i fab, yr oedd anwybodaeth yn amlhau—tô ar ol tô yn syrthio i bechodau gwaeth o hyd, nes mae plant y plant yn wyllt, a nemawr gwell nag anifeiliaid y maes. Er wedi suddo i gyflwr mor isel, yr oedd ganddynt, er hyny, ryw *idea* fod Duw yn bod, rhyw adgof o fod eu tadau yn yr amser gynt yn addoli Bôd uwchlaw y bodau dynol. Ond ni feddylient am dano fel Bôd ysbrydol. Tybient eu bod yn ei glywed yn y daran, eu bod yn ei deimlo yn y storom erch, neu yn rhyferthwy y corwynt. Ereill wrth gael eu cynhyrfu gan ofn, a dychryn, a syndod yn eu gwlad newydd, a ffurfiasant dduwiau iddynt eu hunain. Yn hyn y dechreuodd aml-dduwiaeth. Addoli trwy ofn a syndod y mae dyn ar yr adeg hon. Os y brawychid hwynt, addolent yr hyn a'u brawychodd. Os y llenwid hwy â rhyfeddod, syrthient

mewn addoliad o flaen y dirgelwch. Yn holl grefyddau mawrion yr Aifft, China, India, Groeg, a Rhufain, fe geir "duwiau lawer ac arglwyddi lawer." Ond fe geir, hefyd, olion o'r grediniaeth mewn un Bôd Goruchel.

Yr oedd un genedl, fodd bynag, a gadwai yr un syniad pur am un Duw, a dim ond un; ac mae yr un genedl hon wedi parhau i ymlynu yn wresog wrth yr un syniad hyd heddyw. Y genedl hon oedd yr Iuddewon—pobl ddewisedig Duw. Pan oedd cenedloedd ereill ar wyneb y ddaear yn addoli meini, prenau, bryniau, awyr, a môr, y genedl hon yn unig a addolai Dduw ysbrydol—y Duw byw. I'r genedl hon yr ydym yn ddyledus am yr hyn a wyddom am yr unig Dduw—Tad yr Iesu, a'n Tad ninau oll. Iuddew oedd yr Iesu. Bu fyw a bu farw yn Iuddew; ac Iuddew llawn o ysbryd crefydd a gladdodd gorff croeshoeliedig yr Iesu. Bydded i ni, ynte, ymddwyn tuag atynt gyda pharch a diolchgarwch, a pheidiwn a'u diystyru, canys dros fyr amser y mae eu telynau wedi eu crogi ar yr helyg, a hwythau wedi eu harfaethu i grwydro mewn gwlad ddyeithr. Boed i ni, gan hyny, edrych i fewn i amgylchiadau eu haddoliad. Yr ydym yn eu cael fel cenedl am hir amser ar ol i'r iaith gael ei chymysgu, er nas gelwid hwy yn Iuddewon y pryd hyny, yn cadw yn ffyddlon wrth eu syniad o un Duw.

Dewisir Abram gan Dduw yn dad ac yn sylfaenydd i'r genedl hon; a chawn hanes am dano yn codi ei babell ar dueddau yr Aifft, ac yn adeiladu allor i'r Arglwydd. Gwrteithio y tir a bugeilio ei ddeadell-oedd oedd gwaith Abraham; a syml oedd ei ddull o addoli fel ei ddull o fyw. A llawer cenedlaeth heibio, a lluosoga ei bobl, hyd nes y clywn am danynt yn cael eu gormesu gan yr Aifftiaid, a'u trin megys caethweision. Yna gelwir ar Moses i'w gwaredu o wlad eu caethiwed, a'u tywys i wlad a ddangosir iddo gan Dduw. Er eu bod yn trigo yn nghanol pobl ag oedd wedi creu iddynt eu hunain dduwiau lawer, buont yn ffyddlon i grefydd eu tadau, fel y tystiolaetha Cân Moses ar ol i'r Israeliaid fyned trwy y Môr Coch. Diolchgarwch i Dduw am eu gwaredu yw testyn y gân hon. Mae yn gyflawn o fawl ac o addoliad cywir. Dengys eu crediniaeth lwyr yn mawredd a gallu Duw, a naturiol yw i ni ddysgwyl fod dynion mor frwdfrydig a'r Iuddewon yn dangos mewn modd allanol eu parch i'w Gwaredwr. A dyna wnant. Ar ol llithro lawer tro, ac ar ol amryw o dreialon blin, ni a'u gwelwn yn adeiladu teml i Dduw yn lle yr adeilad amserol a arferai fod yn eu plith. Gwnaed y temlau gorwych, yn nghyda'u haddurniadau rhwysgfawr, yn anrhydedd i'r Duw byw, a deil yr Iuddewon o hyd yn ffyddlon i grefydd syml eu tadau.

(*I'w barhau.*)

D. J. Jenkins.

Y mae damwain yn dygwydd i bawb, ond i ychydig y mae wedi ei roi i droi damwain i ryw bwrpas da.—*Arglwydd Lytton.*

CAN Y RHYFEL.

(*O'r German.*)

BETH bynag ddywedir, gwir yw'r gair,
Fod cosb camwri'n ddrud ;
Os oeda'r gosb ddwy oes, neu dair,
Mae'n croni, er hyny, o hyd.

O ! Brydain falch ! dy dalaeth ferth
A syrthiodd yn awr i'r llaid,—
Mae Gallu bach yn trechu'th nerth,
Can's iawnder sydd o'i blaid.

A'i Swissiaid pybyr gynt i'r gad,
I ryddid neu i fedd ;
A'r goresgynwr brwnt o'u gwlad,
Hyrddiodd eu gwladgar gledd.

Ac felly Brydain, myn Transvaal
Herfeiddio dy gorfflu syth ;
Mae'r ffermwyr dewrion a didâl
Yn haeddu cael rhyddid byth.

Dewisaist Fammon iti'n dduw—
Anghofiaist Dduw dy dad !
Gwel'd dydd dy gwymp, llawenydd yw,—
Can's trachwant a wnaeth dy frad.

Os yn y diwedd enill wnei
(Na weler byth mo'r dydd),
O'th lwydd, un fendith byth nis cei—
Pris gwaed Gweriniaeth rydd !

Bydd buddugoliaeth iti'n wae,
A'th golled nis cei'n ol,
Bydd gwarth dy staen byth yn parhau,
Aur lladrad lysg dy gol.

Cest gredyd hirfaith gan Dduw'r nen—
Mae'th ddyled yn ddiri' ;
Mae dydd y cyfri'n awr ar ben,
Beth ddaw ohonot ti ?

H. T. D.

Chwefror 7fed, 1900.

Yr Herald Cymraeg, Chwefror 13*eg*, 1900.

DADL YNYSGAU, MERTHYR TYDFIL.

YR wyf yn ddiolchgar i chwi, Mr. Gol., am ganiatau i mi ofod yn yr YMOFYNYDD ar y testyn uchod, ond rhaid i mi ddyweyd fy mod yn siomedig iawn wrth ddarllen atebiad y Parch. R. J. Jones yn y Rhifyn diweddaf. Fel y dywedais o'r blaen, yr wyf yn awyddus i gael gwybod hanes Eglwys Ynysgau mor gyflawn ag sydd yn bosibl; a meddyliais, wrth y ffordd bendant yr oedd Mr. Jones yn ysgrifenu, fod rhai ffeithiau ganddo ef mewn cysylltiad â'r achos henafol yma nad oedd wedi gweled goleu ddydd eto, a mawr oedd fy awydd am eu gweled; ond siomwyd fi yn fawr yn ei atebiad. Dywed Mr. Jones fy mod yn amheu rhai o'i osodiadau. Onid ydyw hyny yn naturiol i mi wneyd yn absenoldeb ffeithiau i brofi fod ei osodiadau yn iawn? A chaniatau ein bod, fel y dywed, "wedi ein dwyn i fyny mewn dau awyrgylch gwahanol," nid yw hyny yn gallu newid *ffeithiau* hanesyddol; a dyna'r unig beth oeddwn i am i Mr. Jones wneyd oedd ategu ei osodiadau pendant â phrofion, yr hyn nid yw wedi wneyd; ac yn eu habsenoldeb, rhaid i mi barhau i fod yn amheuwr.

Yn fy llythyr diweddaf, gofynais: "Ai allan o Gwmyglo yr aeth y brodyr a ffurfiasant eglwys Aberdar, neu allan o Ynysgau?" Ac ateb Mr. Jones ydyw: "Y mae yn bosibl ddigon fod rhai o bobl Aberdar yn cymuno yn Ynysgau yn 1749-51; hyny yw, yn ystod yr adeg rhwng cau Cwmyglo ac agor eu tŷ newydd eu hunain." Mae yn dda genyf am y cyfaddefiad hwn, oblegid fy nadl i oedd fod Cwmyglo wedi ei gau i fyny yn 1749, fod yr eglwys yno i *gyd* fel cyfangorff wedi symud i lawr i Ynysgau yn yr un flwyddyn, ac mai yn 1751 yr aeth y brodyr allan o *Ynysgau* i Aberdar. Ni ddywedais, ac nid wyf am eiliad am ddyweyd, nad oeddynt yn aelodau gwreiddiol o Gwmyglo.

Dywed Mr. Jones hefyd: "Nid oes un arbenigrwydd yn perthyn i Ynysgau." Yr oeddwn inau, o'r ochr arall, yn meddwl *fod* arbenigrwydd neillduol mewn achos oedd yn barhad didor o'r Eglwys Ymneillduol gyntaf yn y cylchoedd yma, yr hyn a brofir trwy y ffaith fod yr Elusen a adawodd John William i Eglwys Cwmyglo yn cael ei thalu yn rheolaidd gan yr Ymddiriedolwyr i Eglwys Ynysgau o symudiad yr Eglwys o Gwmyglo i Ynysgau yn 1749 hyd at y flwyddyn 1811, pryd y gwrthododd yr Ymddiriedolwyr dalu y Parch. T B. Evans, fel y dywedais o'r blaen; ac yn y flwyddyn 1828, setlwyd y cwestiwn, i foddlonrwydd y ddwy blaid, gallwn feddwl, ar amodau a roddaf yn nes yn mlaen. Credaf fod y sawl oedd â llaw yn y cytundeb a wnaed mewn gwell mantais i wybod y ffeithiau na neb sydd yn byw yn bresenol, canys yr oedd yr holl amgylchiadau yn hysbys iddynt hwy.

Gwelaf fod Mr. Jones yn cydnabod eich caredigrwydd chwi, Mr. Gol., yn rhoddi iddo Adroddiad y *Charity Commissioners* am 1897, yr

hwn hefyd, mi dybiaf, oedd yn cynwys Adroddiad y *Commissioners* am 1837; ond synais yn fawr weled y geiriau canlynol o'i eiddo: "*Ex parte statement*, fodd bynag, yw'r Adroddiad o syniadau pobl Ynysgau," canys dywed Mr. Jones, "Darllenais ef yn fanwl." Dywed yr Adroddiad fod cytundeb wedi ei wneyd ar yr 20fed o Ragfyr, 1828—(fel canlyniad i ddeiseb Mr. Evans i'r *Court of Chancery* yn 1826)—rhwng Mr. T. B. Evans a'r *Ymddiriedolwyr*, er atal yr achos i fyned yn mhellach, ar y telerau canlynol:—

"Fod gweddill y rhenti hyd at Fihangel, 1827, gyda'r eithriad o rent y tŷ lle oedd Mr. Evans yn byw ynddo, i gael eu derbyn a'u cadw gan yr Ymddiriedolwyr; allan o ba rai yr oeddent i dalu costau yr achos oedd ganddynt yn Mrawdlys y Sir, ac hefyd costau deiseb Mr. Evans i'r *Court of Chancery* er dyfod i feddiant o'i hawliau. Fod yr arian a dderbyniwyd ganddynt oddiar Fihangel, 1827, i gael ei dalu i Mr. Evans. Fod yr Ymddiriedolwyr i roddi i fyny eu hymddiriedaeth, a throsglwyddo yr eiddo i Ymddiriedolwyr ereill oeddynt i'w penodi yn eu lle."

Yn ngwyneb y cytundeb uchod a gymerodd le rhwng Mr. Evans a'r Ymddiriedolwyr, sut y gall Mr. Jones ddyweyd mai "*Ex parte statement* . . . yw'r Adroddiad o syniadau pobl Ynysgau," nis gallaf ddirnad, oherwydd gŵyr o'r goreu mai Adroddiad swyddogol o ffeithiau ydyw, wedi ei barotoi gan *Commissioners* apwyntiedig gan y Llywodraeth, yn erbyn y rhai, yn sicr, nis gall ddwyn y cyhuddiad eu bod yn bartiol i "syniadau pobl Yuysgau."

Yr oeddwn yn gobeithio yn wir fod gan Mr. Jones ffeithiau newydd y gallaswn eu hychwanegu at y papyr a ddarllenais ar yr achos yn Nghyfarfod Jubili Ynysgau yn nis Tachwedd diweddaf, ond yn hyn yr wyf wedi cael fy siomi.

Yr eiddoch yn yr ysbryd goreu,

Merthyr Tydfil. D. D. WILLIAMS.

HEN EGLWYS CWMYGLO.

YR wyf er's blynyddau bellach yn lloffa ac yn casglu cymaint byth y gallaf ddyfod o hyd iddo yn nghylch hen Eglwys Cwmyglo—mam holl eglwysi Ymneilldnol cylch Merthyr ac Aberdar.

Yr oedd fy hen gyfaill, y Parch. J. M. Bowen, Horeb, Penydarren, yn parotoi hanes Eglwys Cwmyglo: ond efe a fu farw cyn cyrhaedd ei amcan: beth ddaeth o'i ysgrifau, nis gwn. Ond gwn i Robert T. Crawshay, Ysw., ardebu yr hen gapel er gais Mr. Bowen, a gwelais y darlun yn ei feddiant. Efallai, pe buasai Mr. Bowen wedi cyhoeddi ffrwyth ei ymchwiliad, y byddem heddyw yn gwybod rhywbeth tebyg i wirionedd am yr hen eglwys hon. Y mae cyfeillion yr Ynysgau yn

honi heddyw eu bod hwy yn barhad o Gwmyglo. Fel un sydd yn cymeryd cryn ddyddordeb yn hyn o ddadl, mi a garwn yn fawr weled cyfeillion yr Ynysgau yn gallu profi eu honiad o'r "parhad" yma; yn gymaint a bod amheuaeth yn bodoli parth cywirdeb eu honiad, eu lle hwy yw dangos yn eglur eu hawl o'r parhad y dadleuir o'i blegid.

Blinid Eglwys Cwmyglo gan bwnc yr "athrawiaeth iachus," sef Calfiniaeth ac Arminiaeth. Dyma, yn ddiddadl, oedd asgwrn y gynen. Ai nid dyma yr achos i fintai fyned allan yn 1747 i ffurfio eglwys Hen-Dŷ-Cwrdd, Coedycymer? Y mae lle cryf i dybio mai y blaid gryfaf yn Nghwmyglo oedd y Calfiniaid, ac i'r blaid wanaf orfod ymadael; yna yr oedd y Calfiniaid ar ol. Tybed, ynte, ai nid yr "athrawiaeth" eto fu yn achos i blaid arall fyned allan yn 1749, ac a adeiladasant gapel yr Ynysgau? Ai nid Arminiaid oedd y fintai hon? Ac ai nid eglwys Arminaidd, yn ngwir ystyr y gair, oedd cynulleidfa yr Ynysgau hyd nes y daeth T. B. Evans yn weinidog arni oddeutu 1810? Gwelwn eto, gan mai yr Arminiaid oedd yn y lleiafrif, gorfu arnynt fyned allan a gadael y Calfiniaid yn y mwyafrif ar ol; ac wrth bob tebyg, buont ar ol hyd y flwyddyn 1751, pan yr aeth cangen arall i ffurfio eglwys Hen-Dŷ-Cwrdd, Aberdar. Nid wyf am awgrymu mai trwy gweryl y bu yr ymadawiad olaf o gwbl, fel y mae y Parch R. J. Jones yn dyweyd: "Ystyriai pobl eglwys Aberdar eu hunain yn aelodau gwreiddiol o Gwmyglo."

Felly, yn gymaint a bod y Calfiniaid yn y mwyafrif yn aros ar ol yn Nghwmyglo, pa sut y gall yr Ynysgau hawlio mai "parhad" yw hi o'r hen eglwys, a hithau yn eglwys Arminaidd hyd adeg dyfodiad T. B. Evans?

Yr honiad nesaf a gawn yw, ddarfod i *lease* Capel Cwmyglo fyned allan oddeutu yr amser yma. A ydyw hyn yn ddigon i brofi ddarfod i'r capel gael ei gau, ac i'r gynulleidfa gael eu gwasgaru? Neu, a ydyw yn debygol i Galfiniaid Cwmyglo, fuont yn dysgyblu eu brodyr Arminaidd ychydig amser cyn hyn, ymheddychu, ac ymdoddi â hwy yn yr Ynysgau? Rhy anhebygol yn wir, i'm tyb i; a rhywbeth tebyg i hynyna yw yr honiadau a glywir yn gyffredin.

Y mae genyf dystiolaeth hen bobl yn profi fod addoli yn nghapel Cwmyglo wedi i'r *lease* fyned allan. Ond er y cwbl, Beth a ddaeth o hen Galfiniaid Cwmyglo? Dyna gwestiwn fy hen gyfaill, y Parch. J. M Bowen; gwn sut oedd ef yn bwriadu ei ateb. Yr wyf yn hyderus y bydd i wŷr yr Ynysgau *geisio* ei ateb. Efallai y bydd genyf finau air i'w ddyweyd ar hyn, wedi iddynt hwy brofi eu "parhad" a'u holyniad digamsyniol, yn eu tyb hwy. Yr eiddoch,

GWERNYFED.

"TRWY ba gyfraith," meddai rhywun wrth Quin, "y darfu y bobl dori pen Siarl I.?" "Trwy gymaint o gyfraith," ebe yntau, "ag oedd efe wedi adael iddynt."

CAPEL NEWYDD PANTYDEFAID.

Buddugol yn Eisteddfod Pantydefaid, y Groglith, 1900

CAPEL Newydd Pantydefaid, rhwng aneddau bro fynyddig,
Adail hoff lle caiff fy enaid dreulio aml dawel orig ;
Tŷr y chwäon ar ei nenfwd, ac yn ddystaw wrth fyn'd heibio,
Yn fy nghlyw yn sibrwd, sibrwd, fod angylion yn ei wylio.

Capel Newydd Pantydefaid, anwyl ydyw yn nghalonau
Y dorf unfryd o Undodiaid sy'n addoli rhwng ei furiau ;
Hardd adeilad ! fythol degwch ! prydferth ydyw oddiallan,
Ond o'i fewn mae dwyf-brydferthwch Beibl-ewyllys Duw Ei Hunan.

Capel Newydd Pantydefaid, yno gwelaf lu yn cyrchu,
O ! olygfa mor fendigaid ydyw boreu Sul yn Nghymru ;
Wedi iddynt gyrhaedd yno, dacw rywun aml ei ddoniau
Yn llefaru am y Duwdod, a phob gair yn crynu'r muriau.

Capel Newydd Pantydefaid, hardd a chelfydd ei wneuthuriad,
Ynddo caf yn ngoleu cariad ysbrydoliaeth roi addoliad ;
O gylch iddo mae tangnefedd, a chaf fynych, fynych deimlo
Dylanwadau nef-edmygedd yn fy enaid wrth fyn'd heibio.

Capel Newydd Pantydefaid, lle'r anadlwyd taer weddïau,
Pur arogldarth mawl bendigaid fyth a erys rhwng ei furiau ;
Gapel anwyl, boed gogoniant Duw'n ei harddu yn dragywydd,—
Pawb o'i gylch ddyrchafo'u moliant, "Yn yr Ysbryd Ddydd yr Arglwydd."

Llandysul. D. CYNON JONES.

Y RHYFEL: "FEL EIN GWELIR."

"AWYDDOCH chwi pa safle ydwyf fi'n gymeryd ? Bob boreu pan fyddaf yn cymeryd fy newyddiadur yn fy llaw, yr wyf yn gobeithio am ddymchweliad newydd i'r Sais. Y rhyfel hwn yw gwrtheb penaf ein hoes ; dwy genedl uchel-wareiddiedig yn diddymu y naill y llall ! Y mae yn arwydd yr amserau : ond un trist yw. Dywed wrthym fod masnachaeth gwael, dienaid, yn llywodraethu y byd. Y mae genyf gyfaill yn y Transvaal, yr hwn a rydd i mi hysbysrwydd manwl o'r modd y mae pethau yn myned yn mlaen. Y mae fy nghydymdeimlad â Lloegr felly wedi oeri llawer."

COUNT TOLSTOI.

LLUN AGRIPPA.

Y MAE llawer o ymholi o bryd i bryd yn nghylch cyfieithiad Jenkin Jones, Llwynrhydowen, o Lyfr Matthew Mead, a thybiais y gallai fod yn ddyddorol i gyhoeddi cynwys y wynebddalen a i Rhagymadrodd, yn yr YMOFYNYDD. Cyhoeddwyd y cyfieithiad gyntaf pan oedd Mr. Jones yn fyfyriwr yn Athrofa Caerfyrddin, a thybiaf mai argraffiad Dr. Rees, Abertawe, yn 1864, yw y diweddaf. Yr oedd hwnw yn chwched. Dylai fod copi o "Lun Agrippa" yn llyfrgell pob capel Cymreig yn perthyn i'r enwad.

"LLUN AGRIPPA:

Neu'r O fewn Ychydig Gristion wedi ei ddadguddio: wedi ei ysgrifenu yn Seisonig gan F. MEAD, ac yn Gymreig gan JENCIN JONES. A'i brintio yng Nghaerfyrddin gan N. Thomas, dros Gristmas Samuel a Lewis Griffies, A.D. 1723."

"LLYTHYR AT Y DARLLENYDD.

"Y CYMRO HAWDDGAR,—Ped addawswn i mi fy hun Glodach a Molach Dynion oddiwrth Gymreigio hyn o Lyfryn, ni buasai raid i mi (wyf yn cydnabod), edliw i neb ond i mi fy hunan ddarfod i mi fyned mor ffol a cheisio i mi eirda oddiwrth yr hyn a ddwg (ys tebygol iawn yw) i mi, Gasair a Thostfarn llawer o'm Cydwladwyr, y rhai pe amgen, a adawsent i mi lonydd, fel i Gymro diathrylith, digelfydd, ac anhyfedr, fel ydd wyf. Eithr gan mai fy Amcan eithaf fi (ag ond odid Bwriad yr Awdwr hefyd) ydyw, nid traboddhau a chogleisio clustiau Areithyddion cymenffraeth, hyawdlaidd (sydd ysgatfydd yn fwy am Swn nag am Swm), ond cyfranu ychydig Gymorth i ti'r Cymro unieith ac unionfryd, tuag at allu o honot farnu, ai Cristion hollol, yntau Cristion o fewn ychydig wyt; (ys Holiad mawr ei bwys yw hwn), nid allai Cuwch, Drygnaws, nac Oersen neb fy atal I rhag anturio gwneuthur fy ngoreu mewn Gorchwylyn sy'n cyfeirio mor uniongyrch tuag at hyny. Er hyny i gyd, gan mai Rhagorfraint yn gystadl â Dyled Dyn ydyw rhoddi Rheswm am bob dim a'r a wnelo, minau (fel Gwas gwych), a wnaf Gynig teg ar roddi i tithau ddim Boddlonrwydd ag a allwyf am y Beiau a'r Anafau wyf yn ragweled y sydd neu y dybir fod yn y cyfieithiad yma, a rhai'n ond odid o dri math, sef, Beiau anesgusodol, Beiau tebygol, a Beiau amheuol; y fath gyntaf wyf yn gyfaddef sydd gyfryw Anafau a'r nad oes genyf Esgus yn y Byd i roddi drostynt oddieithr hyspysu yn onest mai naill ai o wall Gwybodaeth neu o wir Esgeulusdra y diangasant. Dyma hwy: *Jsral* yn lle *Israel*, *hoffi* yn lle *cymeryd fel*. Yr ail Fath yw y Geiriau sydd yn nhyb fanolgraff rhai yn feius, eto, yn fy nhyb inau, yn ddifai ddianaf, dyma rai o'r rheiny, nid amgen, *arddelwi* yr hwn a fyn rhai ei 'Sgrifenu yn arddel, eithr os dechreuad a gwreiddyn Gair ac Arfer gyffredin yr Ysgrifenyddion

presenol goreu a ddichon Awdurdodi Gair a dwyn Tystiolaeth gydag ef, yna y mae i'm gair *arddelwi* inau Ryddfraint i fyned yn ddifai ac yn ddifarn trwy'r Hollwlad. *Amddiffynaeg*, ysgatfydd, sydd air arall i rai ymchwerwi tuag ato. Ond os y gair a gyfansoddwyd felly ag y mae yn dwyn orau bob mymryn o Feddwl yr Awdwr, ac heb fod ei ranau cyfansoddedig yn rhy estronaidd i'r gwerin, yw y gair addasaf, nid oes gan hwn yntef hefyd fawr Ddiolch am gael lle i fyned yn ddiogan ac yn ddirwystr, yn enwedig a'r Dr. DAVIES wedi rhoddi cenad i Bawb gyfansoddi geiriau fel y byddo rhaid wrthynt. Llawer ereill o eiriau a dybir eu bod yn rhy dywyll, megys Gwinwryf, &c. ; mi arferais rai o'r cyfryw o'm lled anfodd, am nad oeddwn yn gweled dim Geiriau eglur yn ateb y Saesonaeg mor gyflawn a hwynt, a rhai o'm gwir fodd, am eu bod eisioes yn y Beibl neu Lyfrau cyffredin ereill, er mwyn eu gwneuthur yn fwy saethredig, ac er mwyn dangos gyfoethoced ein Iaith ni, ond y maent wedi eu Hegluro gan mwyaf i ti yma.

"Y trydydd Math yw y Geiriau hyny a'r nas gwn I yn dda ai beius, yntau difai ydynt, megys taenellu ; mi debygwn mai tanellu y mae'r addodiad yn ddywedyd yw ef, oddiwrth tanu bob yn ychydig, ond taenellu mae'r Beibl yn ddywedyd yw ef. Ond mewn Gair, hyn a erfyniaf arnat (Gymro tirion), bod ohonot mor fwyn ag atal peth ar dy ddig, hyd oni byddo i ti yn gyntaf chwilio Rheolau Gramadeg, Llyfrau'r hen Ysgrifenyddion, ac Ysgrifenedigaeth y Cymreigyddion newydd, a Phriodoliaeth Pob Cwr o Gymru, a thrwy hyny gweled y Bai, a'i ddangos ef i minau, oni bydd genyf Esgus drosto, di gai yr Anrhydedd o eistedd yn Farnwr arno. Ond yn benaf dim mi ddymunaf arnat ystyried Meddwl pwysfawr y Llyfr, yr hwn a ddichon, o'i iawn ddefnyddio, wneuthur llawer tuag at Ogoniant Duw, Daioni dy Enaid di, a thrwy hyny dalu i minau Bwyth fy ngwaith yn ei gyficithu drosot."

"Dyma fy Ngobaith I, yr hwn wyf i ti, hyd y mae ynof, yn Wasanaethwr ufudd,

JENCIN JONES."

"Yng Ngheredigion, Hydref 30ain, O.C. 1723."

Y DYN CELWYDDOG.

CELWYDDOG fûm i yn y byd,
Lle rhoes fy mryd ar wegi ;
Ond gwae im weithian, yn y bedd
O'r diwedd gorfu im' dewi.

Collectanea 1820.

EIN DWY GREFYDD.

MAE'N debygol fod nifer luosocaf o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD yn ddigon cynefin âg enw yr athronydd Seisonig bydenwog Herbert Spencer. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1820; y mae felly yn bedwar ugain mlwydd oed. Sylwai un ysgrifenwr yn ddiweddar, pan yn cyfeirio at farwolaethau John Ruskin a Dr. Martineau, mai Herbert Spencer yn unig oedd wedi ei adael o'r cewri meddyliol fu yn addurno'r ganrif yn y wlad hon. Y mae wedi bod am y rhan fwyaf o'i oes hir yn cario allan y gorchwyl hunan-osodedig o ysgrifenu cyfres o lyfrau ar y Gwyddorau oddiar safbwynt Dadblygiad. Geilw y gyfres yn "Athroniaeth Cydansoddol" *(Synthetic Philosophy)*. Yn un o lyfrau'r gyfres, *Study of Sociology*, a gyhoeddwyd gyntaf yn 1873, y gwelir yr ymadroddion a ganlyn. Gallant fod yn rhyw gysur i'r rhai hyny ohonom sydd yn dadleu dros egwyddorion heddwch, ac yn gorfod bod fel llef yn y diffaethwch, pan y mae y genedl yn dyoddef mor dost oddiwrth y dwymyn ymladdgar, i weled fod athroniaeth yn gystal a ffydd yn edrych yn mlaen at yr amser pan y bydd gelyniaeth wedi cael ei halltudio o'n daear, a chyfeillgarwch yn teyrnasu yn ei lle.

Yr athronydd a ddywed: "Buasai yn clirio ein syniadau am lawer o bethau pe baem yn gallu cydnabod y ffaith fod genym ddwy grefydd. Nid oedd gan bobloedd cyntefig y byd ond un; ni fydd gan y ddynoliaeth yn y dyfodol pell ond un. Y mae y ddwy grefydd yn groes i'w gilydd, a chymhellir ni, sydd yn byw ar ganol cwrs gwareiddiad, i gredu y ddwy, sef crefydd Gelyniaeth, a chrefydd Cyfeillgarwch. Wrth gwrs, nid wyf yn dyweyd fod y ddwy hyn yn cael eu galw yn grefyddau. Nid wyf yn son am enwau, ond am bethau.

"Nid yw pobl ein dyddiau ni yn talu yr un warogaeth eiriol i'r ddeddfres sydd yn gorchymyn Gelyniaeth ag ydynt i'r ddeddfres sydd yn gorchymyn Cyfeillgarwch—yr olaf sydd yn cael y lle anrhydeddusaf. Ond y mae gwir deyrngarwch yn cael ei dalu, i fesur helaethach, i'r ddeddfres sydd yn gorchymyn Gelyniaeth. Y mae pawb bron yn credu crefydd Gelyniaeth. Ond am grefydd Cyfeillgarwch, nid yw y nifer luosocaf ond yn credu eu bod yn ei chredu. Yn hynod iawn, er mwyn cadw i fyny y ddwy grefydd wrthweithredol hyn, yr ydym wedi mabwysiadu dwy gyfundrefn grefyddol, wahanol iawn i'w gilydd, oddiwrth ddwy rywogaeth o bobl ag ydynt hefyd yn wahanol iawn i'w gilydd mewn amryw ystyriaethau. O'r llyfrau Iuddewig, y Testament Newydd, y cymerwn grefydd Cyfeillgarwch. Ac y mae hanesiaeth ac arwrgerddi y Groegiaid a'r Lladinwyr yn gwasanaethu fel efengyl i grefydd Gelyniaeth.

"Pan yn cyfranu addysg i'n hieuenctyd, y mae llawer o amser yn cael ei roddi i un ohonynt, a dim ond ychydig iawn i'r llall. Ac fel i wneyd y cyfuniad yn hollol effeithiol, y mae y ddwy grefydd yn cael eu dysgu yn yr un lle, a chan yr un athrawon. Yn ein hysgolion

cyhoeddus yn ogystal a rhai ereill, y mae yr un personau yn offeiriaid i'r ddwy grefydd. Y mae'r rhanau ddarllenir o'r Ysgrythyrau a'r pregethau ar y seithfed dydd yn gosod allan mewn modd eglur a grymus urddasolrwydd hunanaberth; tra ar y chwe' diwrnod arall, desgrifir mewn iaith goeth a dysglaer yr angenrheidrwydd i aberthu ereill. Y mae gwaed-ddialedd yn rhan gysegredig o grefydd Gelyniaeth, fel y canfyddwn yn hanes anwariaid yr oes hon, ac yn hanesiaeth a llenyddiaeth y cynoesau: a dyma'r ddyledswydd sydd yn cael ei hargraffu ar feddyliau ein hieuenctyd am y chwe' diwrnod; ac yna y mae rhywbeth yn cael ei wneyd ar y seithfed i ddileu'r argraff, pan y mae dialedd yn cael ei gondemnio.

"Tra y mae y dyn ieuanc yn tyfu i oedran addfedrwydd, y mae yn raddol ffurfio'r arferiad o ddefnyddio y naill neu'r llall o'r ddwy grefydd, fel bo'r achlysur yn galw. Ar ol cyrhaedd addfedrwydd, y mae'r arferion wedi eu llwyr sefydlu. Yn awr, ymhelaetha ar yr angenrheidrwydd o ddal i fyny urddas y wlad a'r genedl, a theimla ei fod yn beth israddol i gyflafareddu ar ryw gynen neu ymosodiad, yn hytrach na'i ddial trwy dywallt gwaed. Yna casgla ei wasanaeth-ddynion yn nghyd, a darllena weddi, yn mha un y mae yn gofyn i Dduw 'Faddeu ein troseddau, fel y maddeuwn ninau i'r rhai a droseddant i'n herbyn.' Yr hyn y mae yn weddio am dano fel rhinwedd ar y Sul a ddirmyga fel pechod ar y Llun."

D. R. T.

Y "SPECTATOR" A'R UNDODIAID.

SYNWYD rhai yn fawr yn ddiweddar gan sylw a wnaethpwyd gan y *Spectator*, un o bapyrau y bobl fawrion, fod miloedd o Undodiaid yn mynychu Eglwys Loegr. Teimlai y *Spectator* fod yna anhawsder i ddeall sut oedd pobl yn gallu cymodi yr arferiad â'u cydwybodau. Y casgliad wnaeth oedd hyn, gan nad oeddynt yn ystyried cred mewn athrawiaeth bellach yn angenrheidiol i iachawdwriaeth, nad oedd ymorphwys mewn ffug-athrawiaeth o ddim gwahaniaeth; neu, fel y dywedir weithiau, ddim hwnt nag yma. Ymddengys casgliad o'r fath i ni yn gasgliad pechadurus i'r pen; ond y mae'r Canon Page Roberts, mewn llyfr yn dwyn yr enw *Conformity and Conscience*, h.y., Cydffurfiad a Chydwybod, yn ceisio amddiffyn safle dynion o'r fath. Dywedir fod lluaws o Undodiaid yn mynychu ei eglwys ef: a'i gais yn ei lyfr yw tawelu dwysbigiad cydwybodau y dynion hyn; a gwna hyny trwy ddangos fod Cydffurfiad yn well na chydwybod, ac ymgrymu yn nhŷ Rimmon yn fwy canmoladwy na mynychu capel Anghydffurfiol. O'ch! i'r fath athrawiaeth!

Gan nad beth fyddo eich hopiniynau, nid iawn i chwi gefnu ar yr Eglwys. Dyna farn Page Roberts. Be waeth os oes llawer yn y

credoau nas gallwch ei dderbyn ! "Nid oes yno ddim ysbiwyr wedi eu hawdurdodi i gario'r glec pa un a ydych yn adrodd pob darn o'r credo heb eithriad ; na dim Chwil-lys duwinyddol i ofyn yn mha ystyr yr ydych yn defnyddio y gwahanol erthyglau, neu paham yr ydych yn ddystaw pan fo rhai o'r erthyglau yn cael eu hadrodd." Beth ydyw hyn ond Jesuitiaeth o'r fath waelaf ? Gan nad oes yno ysbiwyr, gallwch fod mor anonest i'ch rheswm a'ch cydwybod ag y mynoch ! Gellwch ddefnyddio geiriau mewn dau ystyr ; gellwch fod yn ddystaw pan gyhoeddir pethau a deimlir genych eu bod yn anwir, gan fod y Chwil-lys duwinyddol yn beth anmhosibl mor bell ag y mae a fyno â'ch cydwybod chwi. A oddefwn ni i gydwybod gael ei sarnu a'i dystewi felly ? Och ! och ! ! Anhawdd dychymygu mor niweidiol yw'r gadwen arian sy'n cysylltu yr Eglwys a'r Wladwriaeth !

MANION AC HANESION.

Rhydygwin.—Cynaliodd yr eglwys uchod ei gwyl de flynyddol ddydd Gwener y Groglith. Mrs. Jones, Penbanc ; Mrs. Thomas, Aldergate ; a Mrs. Jenkins, Aeron Villa, oedd y gwragedd caredig a roddai y wleld eleni. Dygwyddai yr hin fod yn ddymunol, yr hyn, yn nghyda'r mwynhad gafwyd wrth gyfranogi o'r danteithion blasus, barodd i bawb fod mewn ysbryd bywiog, parod i ymaflyd yn ngwaith y cyfarfod gynaliwyd yn yr hwyr. Cadeiriwyd yn y cyfarfod hwn gan y gweinidog, ac arweiniwyd yn fedrus gan Mr. Enoch E. Jenkins, o Goleg Rhydychain. Adroddwyd a chanwyd gan aelodau yr Ysgol Sul yn ardderchog. Yn ychwanegol at yr hyn gafwyd gan aelodau'r lle, cawsom unawd gan yr arweinydd, câu gan Mr. John Islan Jones, o Goleg Rhydychain, a dau ddeuawd gan Miss Tebeth a Megan Owen, Board School, Dihewyd.

Ciliau.—Yn ein rhifyn nesaf, bydd adroddiad llawn o'r Cyfarfodydd Chwarterol, yn nghyda dau ddarlun, y naill o'r hen gapel, a'r llall o'r capel newydd.

Bazaar Llundain.—Mae rhif y cyfeillion sydd wedi cyfrana nwyddau ac arian tuag at y *bazaar* wedi myned yn rhy faith i ymddangos ar dudalenau yr Ymofynydd. Bwriada y Pwyllgor ddwyn allan gylchlyfryn yn cynwys enwau pawb ag sydd wedi cyfrana. Ni fydd yn bosibl i'w gael yn barod nes bydd y *bazaar* drosodd. Gobeithia y Pwyllgor y bydd i'r drefn orfodol hon roddi boddhad.

Capelygroes. — Cynaliwyd gwledd de flynyddol y lle uchod prydnawn Llun, Ebrill 3ydd. Yn ystod y prydnawn, bu lluaws mawr yn cyfranogi o'r danteithion oedd wedi eu parotoi ar gyfer yr amgylchiad ; a'm cred yw, fod pawb wedi eu llwyr foddloni. Yn yr hwyr, fel arfer, caed gwledd i'r meddwl, pryd yr aed trwy un o'r rhagleni meithaf a goreu hefyd yn ol barn pawb. Yr oedd bron pob dernyn ynddo hefyd yn newydd, yr hyn oedd yn gwneyd y cyfarfod yn fwy blasus fyth. Cymerai i fyny ormod o'ch gofod, yr wyf yn ofni i roi yma enwau y gwragedd a'r merched ieuainc fuont yn gwasanaethu wrth y byrddau yn y prydnawn, ac enwau y rhai fuont yn cymeryd rhan yn y cyfarfod yn yr hwyr. Gwnaeth pawb ei ran oreu i wneyd y cyfarfod yn llwyddiant, ac y mae diolch yn ddyledus iddynt. Trueni fod rhyw haner dwsin yn y cyfarfod hwyrol yn achosi peth anhrefn. Arweiniwyd gan y Parch. E. E. Jenkins

yn ddeheuig a threfnus, a chadeiriwyd gan y gweinidog.

CYMANFA GERDDOROL UNDODIAID CEREDIGION. — Dymunir gwneyd yn hysbys drwy gyfrwng yr YMOFYNYDD fod dydd cynaliad y Gymanfa uchod i gael ei gyfnewid o Mehefin 6ed i Mai 30ain, sef wythnos yn gynt, gan obeithio y daw pawb i wybod am y cyfnewidiad a fwriedir ei wneyd yn y Gymanfa.—*W. Hefin Williams.*

CEFNCOED. — Yr oedd dydd Llun, Ebrill 9fed, yn ddydd i'w hir gofio gan blant a phobl ieuainc yr eglwys hon. Cafwyd llawer iawn o ddyddordeb ac adeiladaeth yn ystod misoedd y gauaf yn nghyfarfodydd y bobl ieuainc. Dysgwyd, adroddwyd, a chanwyd lluaws mawr o ddarnau ardderchog; a chyn diwedd y tymhor, ymgymerwyd â dysgu llyfr bychan—*Alone in the World*—a dysgwyd ef yn drwyadl. Yr oedd diwrnod perfformio y llyfr i fod yn ddiwedd y tymhor. Ar y dydd a nodwyd, parotowyd gwledd odidog o de a phob math o ddanteithion yn yr ysgoldy gan foneddigesau perthynol i'r dosbarth, a threuliasom brydnawn hapus iawn gyda'n gilydd. Gwasanaethwyd yn y rhan hon o'r trefniadau gan Mrs. Thomas, Mrs. Jones, Mrs. Jenkins, Mrs. Morgan, Misses Lille Harries, May Lewis, Annie Price, Annie Morgan, Margery Davies, G. M. Price, Rachel Williams, a Gwen Jones. Yn yr hwyr, cawsom gyfarfod yn y capel, pryd y perfformiwyd y llyfr; a theg yw dyweyd i bob peth basio heibio yn gampus. Cyn terfynu, pasiwyd pleidlais o ddiolchgarwch gwresog i Mr. John Lewis a Mr. W. H. Harries—dau ddyn ieuanc a fu mor ddiwyd a gweithgar yn dysgu y plant i adrodd a chanu. Yn wir, mae clod yn ddyledus i'r holl ddosbarth am eu ffyddlondeb a'u cydweithrediad trwy gydol yr holl dymhor. Gwnaethoch yn dda.

MARWGOFION.

MAWRTH 9fed, yn 66 mlwydd oed, Anne Jones, Ty-Rhys, Pontshan, a chladdwyd y dydd Llun canlynol yn Pantydefaid, pryd y gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. T. Thomas, Y.H., ac yn y capel ac ar lân y bedd gan y Parch. Arthur Thomas.

MAWRTH 15fed, yn 65 mlwydd oed, wedi misoedd lawer o ddyoddef caled, Dinah, anwyl wraig Griffith Thomas, Trebanos. Ar y 19eg dilynol hebryngwyd hi tua hen gladdfa Gellionen, dan nawdd gweinidogaethol ei gweinidog, y Parch. T. J. Jenkins, a'r Parch. E. H. Carston (A.), Gosen, gyda sylwadau pwrpasol a gwersïol i bawb. Bu eia hanwyl gymydoges yn ffyddlon i'r diwedd, a sicr yw y gwelir ei heisieu yn fawr, yn neillduol ar yr aelwyd, ar ba un y gwnaeth ei goreu i noddi y sawl oedd dan ei gofal. Yr oedd yn aelod da yn nghynulleidfa saint yr Undodiaid er's blynyddau meithion, a balm i'w chalon agored bob amser ydoedd son a dyweyd am yr enwad. Cyfeiried y galarwyr i gyd eu camrau tua noddfa gadarn Seion Duw am faeth drudfawr, yr hwn nas gall y byd ei roi, na'i ddwyn oddiarnynt. "Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig."

MAWRTH 16eg, yn 34 mlwydd oed, Mrs. Margaret Davies, priod Mr. James Davies, Troedrhiwfawr, Llandysul, a merch Mr. David Jones a Mrs. Jones, Gwardafolog. Claddwyd ei gweddillion marwol y dydd Mawrth canlynol yn mynwent Pantydefaid, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. Thos. Thomas, Y.H., W. James, B.A., Y.H., ac Arthur Thomas. Yr oedd i'r ymadawedig air da gan bawb, yn briod hawddgar, ac yn fam dyner. Yr oedd yn aelod ffyddlawn yn y Graig, ac yn y Bwlch cyn hyny, a theimlir colled fawr ar ei hol, yn neillduol gan ei phriod a'i phedwar plentyn bychan.

"Trwy ddirgel ffyrdd mae'r uchel Iôr
Yn dwyn Ei waith i ben."

MAWRTH 20fed, yn 69 mlwydd oed, Margaret Thomas, gweddw y diweddar John Thomas, Ffosygiach, Talgareg. Cludwyd ei gweddillion marwol i fynwent Bwlchyfadfa, y dydd Sadwrn canlynol, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. Arthur Thomas.

MAWRTH 22ain, yn dra disymwth, Benjamin Davies, Bryngwyn, ger Cribyn, yn 76 mlwydd oed. Gadawodd i alaru ar ei ol weddw, un mab, a phedair merch. Dyn diwyd, sobr, cywir, ac un a berchid gan bawb a'i hadwaenent. Hebryngwyd ei weddillion i fynwent Dihewyd y Llun canlynol gan dorf fawr o bobl, a gweinyddwyd yn y tŷ gan offeiriaid y plwyf. Nerth a gaffo'r weddw a'r plant i ymgysuro yn eu hadfyd.

MAWRTH 27ain, William Hughes, siopwr, Cefncoedycymer, yn 82 mlwydd oed. Diwedd tawel, yn llawn o dangnefedd hyfryd, megys diwedd diwrnod gogoneddus yn yr haf, pan fo'r haul wrth fachludo yn taflu dros y wlad ffrwd o dywynder anghymharol, oedd diwedd ein cyfaill ymadawedig. Ni chafodd ei gystuddio, ond daeth y wŷs i'w ymofyn adref mor ddystaw a didwrw ag y daw hûn i'r plentyn wedi blino. Carai iddi dd'od felly, ac megys y dymunai y bu. Efe oedd y ddolen olaf o'r dô henaf yn mhlith aelodau yr Hen Dy Cwrdd. Yr oedd wedi bod yn aelod oddiar 1849, ac am ran fawr o'r ysbaid yma o haner can' mlynedd bu yn ddiacon, ac yn un o golofnau goraf yr achos yn y lle. Pan yn ddyn ieuanc arferai gyrchu yn rheolaidd i wasanaeth yr Eglwys Sefydledig, a bwriadai fod yn offeiriad, ond trwy ddylanwad ei gyfeillgarwch â'r Parch. Owen Evans, llwyddodd i gael goleuni gwell ar y gwirioneddau yr arferai gredu ynddynt, a daeth yn Undodwr trwyadl. Un o heddychol ffyddloniaid Israel ydoedd—un o ddysgyblion goreu Tywysog Tangnefedd, heb un gair traws yn disgyn byth dros ei wefusau; ond yn hollol uniawn yn ei holl ymdrafodaeth, ac yn ddidderbyn-wyneb yn holl gysylltiadau ei fywyd. Darllenodd lawer yn ystod ei oes, yr hyn, yn nghyda'i farn glir, a'i ddull pwyllog, a'i gwnai yn oracl yr ymgynghorid âg ef ar gwestiynau pwysig gan luaws mawr o'i drigolion yn yr ardal, ac ystyrid ei air yn ddigon i benderfynu pob pwnc o ddadl. Gadawodd weddw a dwy ferch ar ol. Yn yr angladd dydd Sadwrn canlynol, gwasanaethwyd gan y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. J. E. Jenkins, Dowlais, a D. J. Williams, Merthyr. Yr oedd y dorf a ddaethai yn nghyd yn dangos yn eglur fod gweddillion un anwyl ac anrhydeddus yn cael eu gosod yn y bedd, a thystiolaeth pawb oedd fod un o gewri Seion wedi syrthio pan syrthiodd William Hughes. Ei ysbryd llariaidd, a phrydferthwch ei fywyd syml, a arosed yn hir yn yr ardal.

Y GROGLITH, yn 79 mlwydd oed, Lewis Williams, Gellionen Ganol, wedi amser hirfaith o galedi bywyd. Yr oedd ei anwyl gymhar wedi syrthio ar y daith tua dwy flynedd a haner o'i flaen; ill dau wedi sylweddoli profiad bywyd. Bu yr ymadawedig hwn un amser yn dŵr o amddiffynfa i eglwys Gellionen, yn amser gweinidogaeth y Parch. John Evans; ond heddyw, wedi ei alw oddiwrth ei oruwchwyliaeth ddaearol, i gymeryd meddiant o wobrwy anllygredig y gogoniant, y tuhwnt i'r llen. Yr oedd yn adnabyddus yn y gwahanol gylchoedd cymydogaethol, yn neillduol y cylch amaethyddol. Hebryngwyd ei weddillion priddlyd i gladdfa Gellionen, y Mercher dilynol, tra yr haul gwyn yn bwrw ei belydrau gwresog ar bob glaswelltyn a brig, nes y teimlem fod y Bôd Mawr, mewu ystyr, yn parotoi dydd i osod gweddillion Lewis Williams i dawel huno o gynhwrf a chrechwen y byd a'i dwyll. Yn absenoldeb y Parch. T. J. Jenkins, yn herwydd afiechyd, gwasanaethodd y Parch. J. Hathren Davias, Cefncoed, gyda sylwadau a barodd i ni ddyweyd "mai da oedd i ni fod" yn yr angladd; a gweddïwyd ar lân y bedd gan y Parch. R. Lewis, Elim, Craigcefnparc. Caffed y galarwyr o bob tu i'r heol dangnefedd Duw yn y cyfwng blinderus. "Na alerwch fel rhai heb obaith."

Argraffwyd gan Joseph Williams, Swyddfa'r "Tyst," Merthyr.